

## Cyngor Cymuned Llanllyfni

### Cofnodion cyfarfod Cyngor Cymuned Llanllyfni, a gynhaliwyd yn rhithiol dros y system 'Zoom', Nos Fawrth, 9 Tachwedd 2021 am 7.00 o'r gloch.

#### Agenda

**1. Presenno!** Dafydd Thomas (Cadeirydd) – Nebo, Gwyndaf Roberts, Hefina Roberts, OP Huws – Llanllyfni, Barry Bracegirdle, Heledd Thomas, Ceri Owen, Erfyl Williams, Justin Davies – Penygroes, Ffion Jones – Nantlle, Peter Bridges, Sian Dafydd, Gareth Jones – Talysarn. Gwadd – PCSO Aled Hughes.

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Dylan Herbert, Harry Owen a'r Cynghorydd Judith Humphreys. Ni dderbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Dilwyn Lloyd.

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd Dafydd Thomas a rhoddwyd croeso arbennig i PCSO Aled Hughes.

**2. Datgan Buddiant:** Roedd gan Sian Dafydd a Ffion Jones fuddiant yn eitem rhif 14 – Cais Cynllunio Ffrem Coed Madog Talysarn.

**3. Gwadd – PCSO Aled Hughes:** Rhoddwyd croeso a diolch i PCSO Aled Hughes atom. Cyflwynodd ei hun ac esbonio ei fod ym Mhenygroes yn gweithio ers tua 5 mis bellach. Gofynnodd os oedd gan unrhywun rywbeth yr hoffent drafod gydag o. Holwyd ynglŷn â pwy oedd wedi malurio y safle bws ger y Co-op, ac esboniodd Aled yn anffodus nad oeddent ar hyn o bryd yn gwybod pwy oedd wedi gwneud y difrod gan nad oes yna CCTV ar y safle. Adroddwyd fod problem gyda delio cyffuriau yn Trem Y Wyddfa a gofyn iddo edrych fewn i hyn. Pwysleisiodd Aled ei bod yn bwysig os oes gan unrhywun unrhyw wybodaeth i gysylltu gydag o yn syth. Holwyd ynglŷn â beth oedd wedi digwydd yn Nebo pan oedd dynes yn cerdded am dro a dyn wedi dod ati yn aflonyddu arni – yn anffodus nid oedd Aled yn gweithio ar yr achos yma felly nid oedd yn medru ymateb – ond roedd am holi a dod nôl atom gyda diweddariad. Holodd OP Huws faint o heddlu sydd yn yr orsaf yn Penygroes? Dywedwyd fod Aled fel PCSO a 3 swyddog arall a ychydig o staff. Pryder yw fod y swyddogion yn cael eu denu i Gaernarfon, ac yn anffodus mae hyn yn digwydd. Adroddodd allan o 8 diwrnod, fod yna 48awr lle nad oes neb yn yr orsaf. Holodd Erfyl os oedd siawn fod rhywun am ateb y drws os yn mynd yno? Yn anffodus na dim bod tro – yn enwedig yn y 48awr lle nad oes neb yno. Holodd Dafydd faint o CCTV oedd yna ym Mhenygroes? Dim llawer yn anffodus, adroddodd lle roedd 4 wedi eu lleoli a bod eu ansawdd yn iawn, ond yn well yn y dydd na'r nos, a bod yna le i wella. Bysa yn wych cael rhai o ansawdd gwell a rhai wedi eu lleoli ger y safle bws a hefyd ger y Neuadd yn Penygroes (gan fod yna lawer o bobl ifan yn casglu yno gyda'r nos). Yn anffodus arianu hyn yw'r broblem. Cynnigiodd Barry y dylid rhoi hyn o flaen Pwyllgor Ffrindiau Penygroes a hefyd y Cyngor Cymuned i helpu allan. Cytunwyd gyda hyn a gofyn i Aled os y buasai yn fodlon crybwyll hyn wrth y pwyllgor. Adroddodd Aled hefyd ei fod wedi bod mewn trafodaeth gyda Barry Williams o'r Adran Ieuencid a CPD Nantlle Vale i ddechrau clwb ieuencid yn y Dyffryn. Holodd Ffion os oes yna amserlen/rota pan mae Aled yn ymweld a pentrefi eraill Dyffryn Nantlle? Nagoes ar hyn o bryd, gan mai dim ond Aled ei hun sydd yn yr ardal a mae yn ardal fawr i un person. Soniodd Erfyl fod nos wener a nos sadwrn yn brysur yn Penygroes gyda pobl yn mynd i nôl bwydydd o'r siopau 'take aways' ac mae nhw yn tueddu i barcio ymhobman ar y stryd a hyn yn beryg rhan fwyaf o'r amser. Gofyn oes posib y gall rhywun fynd allan i edrych ar hyn a cael gair gyda ambell un. – iawn, Aled am drefnu hyn. Gofynnodd OP Huws os yw swydd Aled yn barhaol i Dyffryn Nantlle? Mae yn gwneud gwaith ardderchog yn yr ardal a mae'n

bwysig ei fod yma yn barhaol – hyd y gwyr Aled, ydi mae ei swydd yn barhaol. Gofynnodd Peter oes posib trefnu i Aled ddod i'r ysgol at y plant, fel eu bod yn dod i'w adnabod fel rhywun sydd yn mynd o gwmpas yr ardal ac yn adnabyddus iddynt os yn dod ar ei draws rhywbryd yn y dyfodol. (7.35 Justin Davies yn cyrraedd y cyfarfod). Diolchwyd i PCSO Aled Hughes am ei amser a'i waith a gobeithio cael cyfle i'w wahodd i gyfarfod eto yn y dyfodol am sgwrs. Gadawodd Aled y cyfarfod.

**4. Cywirdeb cofnodion cyfarfod 12fed Hydref 2021:** Cynnigiodd Barry Bracegirdle ac eiliodd Gwyndaf Roberts fod y cofnodion yn gywir a cytunodd pawb.

**5. Materion yn codi o'r cyn gofnodion ac ymatebion Cyngor Gwynedd:** Gofynwyd i'r clerc gysylltu gyda Rob Jones eto gan nad oedd Dafydd wedi medru cael cyfarfod gydag o, ac eisiau trefnu eto. Y clerc i wahodd Sion Bryn o'r Adran Ieuencid i gyfarfod mis Rhagfyr neu Ionawr am drafodaeth bellach ynglŷn â'r Clwb Ieuencid.

**6. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir:** Roedd pawb wedi derbyn adroddiad a oedd wedi ei pharatoi gan Judith Humphreys. Yn absenoldeb Judith roedd OP Huws eisiau holi os yw'r Pwyllgor Iaith y mae hi yn son amdano yn rhywbeth statudol – mae OP am gysylltu gyda Judith i holi mwy. Heledd Thomas eisiau holi Judith beth yw y sefyllfa gyda Ysgol Bro Llew a'r Stad Tai newydd sydd yn cael ei adeiladu – a oes yna ddigon o le i'r plant yn yr ysgol?

**7. Taflen Ariannol a Chyllid:** Roedd pawb wedi derbyn copi o'r gyllideb hyd at 28 Hydref 2021. Gofynnodd Dafydd i Gareth esbonio i bawb beth yw Adran 137 a dan gyfraniadau ariannol – esboniodd Gareth. Diolchodd Dafydd i Sian am edrych dros y gontract torri mynwentydd a llwybrau. Bydd y gontract yn cael ei gyrru i bawb edrych drosti yn fuan. Cynnigiodd Sian ac eiliodd OP Huws bod angen nodi ar y gytundeb pwysigrwydd cael anfoneb 3 gwaith y flwyddyn gan y contractwyr i gyd-fynd a'r taliadau fydd yn cael eu gwneud. Nododd Dafydd hefyd fod y dyddiadau talu wedi eu newid ar y gontract er mwyn i'r taliadau fod o fewn y flwyddyn ariannol. Holodd Gwyndaf a fuasai yn syniad cael dwy gontract – un ar gyfer y mynwentydd a un ar gyfer llwybrau? Trafodwyd a cytunwyd i beidio gwneud hyn.

**8. Ceisiadau ariannol – hysbyseb Llew:** Pawb wedi derbyn copi o'r hysbyseb ag yn fodlon iddo fynd i'r rhifyn nesaf o Llew a hefyd ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned.

**9. Cyfarfodydd Is-bwyllgorau / cyfarfodydd yn ystod y mis: Cyfarfod Fframwaith Adfywio gyda Rhian George – 26 Hydref** – Pawb wedi derbyn y cofnodion o'r cyfarfod hwn. Adroddodd y clerc nad oedd ymateb wedi dod yn nôl gan Rhian hyd yn hyn yn dilyn o'r cyfarfod. **Cyfarfod gyda Tim Heatley, Dorothea – 28 Hydref** – Dafydd, Gwyndaf a Harry wedi bod yn y cyfarfod hwn yng Nghanolfan Talysarn. Adroddodd Dafydd beth oedd wedi ei drafod. Son am ddatblygu Dorothea, a son yn bennaf am ddod a plant a pobl ifanc fewn i'r cynllun gan eu bod yn cael trafferth gyda fandaliaeth yn Dorothea ar hyn o bryd. Soniwyd am y maes parcio yn Petris a son am wneud arddangosfa yng Nghanolfan Talysarn. Pwysleisiodd y cynghorwyr cymuned ei bod yn bwysig bod yr iaith Gymraeg yn cael ei defnyddio a bod hyn yn hanfodol ym mhob agwedd o'r gwaith fydd yn mynd ymlaen yno.

**10. Dysgwyr y Dyffryn:** Esboniodd OP Huws pwrpas hyn a dywedodd fod trafodaeth wedi bod ynglŷn â pryder dyfodol yr iaith Gymraeg yn y Dyffryn yn enwedig o fewn y tô ifanc. Y syniad yw i sefydlu grŵp arwahan i'r Cyngor Cymuned llawn ond a fydd yn adrodd yn nôl i'r cyngor pan bydd angen gweithredu. Buasai y grŵp yn cynnwys aelodau o'r cyngor hwn. Buasai y grŵp yn dewis y dysgwr sydd wedi gwneud yn ymdrech orau i ddysgu y Gymraeg

yn y flwyddyn. Trafodwyd y maesydd gwaith posib sef Addysg – pobl ifanc, ysgolion a rhieni. Tai – tenantiaid Grŵp Cynefin ac Adra. Gellir cyd-weithio gyda eraill yn y maes hwn, trefnu nosweithiau cymdeithasol. Trafodwyd y mater ymhellach a rhoddwyd cyfle i bawb roi eu barn a'u mewnbwn. Cynnigiodd Sian y buasai y Mudiad Meithrin yn sefydliad i gysidro cyd-weithio gyda nhw. Gareth yn meddwl y buasai Cyngor Tref Porthmadog yn rywun y dylid cysylltu gyda nhw gan fod pethau gyda dysgu cymreg yn mynd ymlaen yno. Dywedodd Peter fod yna gynllun ar waith rhwng ysgolion y Dyffryn i hybu yr iaith gan fod cynydd wedi bod yn siarad saesneg. Felly cynnig bod ysgolion yn rai y dylid cysylltu gyda nhw. Trafodwyd y dylid cysylltu gyda'r Menter Iaith a holi beth yw eu cynlluniau i Ddyffryn Nantlle. Cynnigiodd OP Huws fod y grŵp yn cael ei sefydlu yn y cyfarfod heno er mwyn medru symud ymlaen. Gofynwyd os oedd rhywun a diddordeb a rhoddodd Justin Davies, Sian Dafydd, Dafydd Thomas, OP Huws a Erfyl Williams eu henwau ymlaen. Diolchwyd i OP am ei waith gyda hyn. (8.10 Ffion Jones yn gadael y cyfarfod).

**11. Parc Sglefrio a Trac BMX Talysarn** – Roedd y clerc wedi pasio y dogfenau drafft ymlaen i bawb edrych drostynt cyn y cyfarfod. Diolchwyd i Gareth am ei fewnbwn heddiw a gofyn iddo drafod ymhellach. Esboniodd ei fod yn bryderus ynglŷn â'r cyfrifoldebau sydd am ddisgyn ar y Cyngor Cymuned os yn mynd ymlaen i gymerud y brydles. Beth fyddai yn digwydd os nad oes grantiau ar gael? Beth os yw'r diddordeb gan aelodau y grŵp sydd wedi ei sefydlu yn diflanu? Dywedodd Gareth ei fod o dan yr argraff mai'r grŵp fyddai yn gyfrifol am y safle ond o ddarllen y dogfen rheolaeth mae i weld fel bod pob dim yn disgyn ar y Cyngor Cymuned. Esboniodd Sian mai dogfenau drafft oedd rhain a diolch i Gareth am godi y pwyntiau dilys hyn. Cynnigiodd Sian y buasai yn bosib rhoi cymal yn y cyfansoddiad lle os yw pethau ddim yn gweithio allan yna bod y Cyngor Cymuned yn medru diddymu y contract. Dywedodd Sian hefyd ei fod wedi ei nodi yn y cyfansoddiad bod yn raid i ddau aelod o'r Cyngor Cymuned fod yn aelodau o'r grŵp er mwyn cael ychydig o reolaeth. Esboniodd Dafydd ei bod yn bwysig nodi fod y Cyngor eisiau cefnogi hyn ond bod yn bwysig gwneud yn siwr fod popeth yn iawn a fod pawb yn hapus. Cynnigiodd Sian fod y cwestiynau sydd wedi eu codi yn cael eu rhoi o flaen y grŵp, a gofyn felly i Nia baratoi hyn a'i ebostio i gadeirydd y grŵp ac hefyd i Rhian George. Cytunodd pawb.

**12. Nadolig** – Esboniodd Nia fod y golau ar gyfer Penygroes fod i gyrraedd ar 15 Tachwedd ac mae wedi cysylltu gyda RJ Electrics i adael iddynt wybod am hyn. Dywedodd Gwyndaf fod dal angen dau focs trydan wedi eu gosod yn Penygroes ag un yn Llanllyfni cyn bydd y golau yn cael eu gosod – gofyn i Nia gysylltu gyda Dylan Herbert i ofyn beth sydd mynd ymlaen gyda hyn. Trafodwyd cael noson i oleuo Penygroes a soniwyd fod POBI yn cynnal ffair nadolig ar 4 a 5 Rhagfyr a buasai yn bosib gwneud rhywbeth yr un pryd os eisiau. Coed Nadolig i'r pentrefi – gofynwyd i gynghorwyr Talysarn, Llanllyfni, Nebo a Nantlle os oedd eu pentrefi eisiau coeden nadolig a golau. Esboniodd Dafydd nad oes angen un yn Nebo ond diolch am y cynnig. Gofynwyd i'r gweddill feddwl am lle i'w gosod a gadael i Nia wybod. Yn y cyfamser Nia i gael prisiau coed a golau a gadael i bawb wybod.

**13. Llwybrau a Mynwentydd – Gwaredu Coed Celyn Eglwys Sant Rhedyw:** Rhoddodd Gwyndaf gefndir i bawb ar y sefyllfa hon gan fod prisiau wedi eu derbyn am y gwaith yn gynharach yn y flwyddyn. Dau bris wedi ei dderbyn gan gwmnïau lleol. Esboniodd bod yn raid i'r gwaith gael ei wneud y gaeaf yma. Trafodwyd hyn, a'r prisiau a oedd wedi eu derbyn gan Nick Cranham (1190 + 238(TAW) = £1428.00), a Cwmni DyNant (£1150 dim TAW). Ar ôl trafod cynnigiodd OP Huws bod y gwaith yn cael ei roi i Nick Cranham, eiliodd Erfyl a cytunodd pawb. Nia i gysylltu gyda Nick Cranham. **Contract Pori Cae Macplea** – Yn dilyn trafodaeth gyda Harry Owen, roedd wedi awgrymu y dylid ffensio y lôn newydd i ffwrdd ac esboniodd Gwyndaf ei fod yn cytuno gyda hyn ac esboniodd bod gwneud y gwaith yn mynd i

arbed niwed i'r lôn newydd. Holwyd Gareth faint o arian sydd dros ben o waith prosiect Macpela ac esboniodd Gwyndaf ei fod wedi cael bras bris ar y gwaith, a oedd tua £2700. Trafodwyd a cynigiodd Dafydd ac eilwyd gan Barry bod y cyngor yn cael tri pris gan contractwyr am y gwaith. Nia i roi hysbyseb yn Lleu ac ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned. **Gofynwyd i bawb edrych yn bocsys halen eu ward rhag ofn bod angen eu llenwi a gadael i Nia wybod.**

**14. Ceisiadau Cynllunio** – bu i Sian Dafydd adael y cyfarfod tra yn trafod hyn (roedd Ffion Jones wedi gorfod gadael ynghynt). Cais Cynllunio C21/0933/22/LL – Fferm Coed Madog, Talysarn – gosod podiau gwyliau. Trafodwyd a nid oedd dim gwrthwynebiad i'r cais.

**15. Gohebiaeth:** Roedd pawb wedi derbyn y gohebiaeth ymlaen llaw i'r cyfarfod a rhoddwyd cyfle i bawb godi unrhyw fater.

- *Grwp Cynefin – Cais Cynllunio tir ger Maes Dulyn* – Trafodwyd cynnigion ar gyfer enw ar y Stad a rhoddwyd yr enw Trem Yr Engan ymlaen.
- *Cyngor Gwynedd – Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig Talysarn* Dim byd pellach i drafod.
- *Amgueddfa Lechi Cymru – Sut amgueddfa da chi isio?* Dim byd pellach i drafod.
- *Judith Humphreys – pasio ebost 20 Hydref gan Gyngor Gwynedd ymlaen ynglŷn â amserlen newydd gwasanaeth bws 1N a 1R.* Nodwyd nad yw hwn yn cynnwys Nebo, Llanllyfni na Nasareth. Hefyd mae son wedi bod am wasanaeth T22 o fis Ebrill ymlaen – angen cadw golwg ar hyn.
- *Grug Muse, Hwylusydd Cymunedol DN – Cyflwyniad Gwyrdd Ni* Trafod a penderfynu rhoi gwadd i Grug i gyfarfod mis Ionawr.
- *Howard Huws, Cylch Yr Iaith – “Nid datblygu isadeiledd yw'r ateb i'r broblem”* Cytuno gyda beth mae yn ei ddweud.
- *UnLlais – Asesiad o'r effaith iechyd yn sgil y newid hinsawdd* Dim byd pellach i drafod.
- *UnLlais – Pecynnau Cadwch Cymru'n Daclus* Dim byd pellach i drafod.
- *UnLlais – Welsh Government defibrillator fund* Adroddwyd fod Pwyllgor Ardal Nebo a Nasareth yn edrych fewn i hyn. Holodd Dafydd faint o'r offer yma sydd yn y pentrefi eraill. Penygroes (1), Llanllyfni (1), Talysarn (1) ond ei fod tu fewn i'r Ganolfan. Angen holi Carys yr ofalwraig am hyn a efallai son y buasai yn syniad ei osod y tu allan.

16. Materion Ariannol :

- *Scottish Power - £57.84 anfoneb terfynol meters golau nadolig* – Cytuno i'w dalu
- *Scottish Power - £66.78 anfoneb terfynol meters golau nadolig* – Cytuno i'w dalu
- *Tom James Construction - £2766.26+553.25(TAW)= £3319.51. Y 10% oedd yn weddill i'w dalu am y gwaith yn Mynwent Macpela* – Dafydd, Barry a Gwyndaf am gyfarfod yn y fynwent i edrych fod y gwaith wedi ei wneud a fod pob dim yn iawn ar ôl y tywydd mawr.
- *Nia Jones - £25.00 Ffôn a rhyngwyd Tachwedd 2021* – Cytuno i dalu
- *Nia Jones - £14.39 Zoom Tachwedd 2021* – Cytuno i dalu